313

# RHYFEL-GERDD,

## BUDDUGOLIAETH Y CYNGHREIRIAID YN Y CRIMEA;

## A

# GORCHFYGIAD SEBASTOPOL.

Cenir ar y Dôn (Earl of Moira.)

GWRANDEWCH ar ganiad c'lymiad clir
  I'r rhyfel hir barhâd;
Rhwng Twrci a Rwsia, tryma' tro,
  Bu brwydro mawr a brad.
Ar Emp'rwr Rwsia 'r oedd y bai,
  Fel gŵyr pob rhai trwy'r byd,
Am ddwyn dwy ran o'i deyrnas 'r oedd,
  Lle'r ydoedd gwlad yr ŷd:
    Twrci i gyd, hyny o bryd,
    A gynhyrfwyd gyda nerth.

Cyfododd Brydain gyda Ffraingc,
  Fel un freninfaingc fawr,
O ochr Twrci, ar hyny o dro,
  Rhag Rwsia ei lluchio i'r llawr,
Gan mil cydrhwng gwŷr meirch ar frys,
  A'r trefnus filwyr traed.
Caiff arth y Rwsia, er cryfed fo,
  Ei gongcro ar faes y gwaed:
    I godi 'r aed, gedyrn rym,
    Pawb yn gyflym at eu gwaith.

Croesasant fôr o Varna'n glir,
  I dir Crimea draw;
A'n gwŷr fel llewod aent i'r lan,
  Mor llydan ar bob llaw.
Pan welwyd Ffraingc yn rhoddi her,
  A Lloegr yn un llu,
A'u llongau rhyfel mwya'u clod,
  Yn dyfod o'r Môr Dû.
    Rwsia cry', lidiog lu,
    Oedd yno'n crynu yn eu crwyn.

Yn mrwydr Alma, tryma' tro,
  Ca'dd Rwsia ei darnio'n dost,
A Balaclava ac Inkerman,
  Nid bychan yw ein bost.
Hwy wnaent i feibion Nicholas ffoi,
  Fe'u gwelwyd yn troi cefn,
Gan sathru eu gwŷr dan draed eu meirch,
  Mor drymllyd oedd y drefn!
    'R oedd yno gyrff yn eu gwaed,
    Filldiroedd maith dan draed yn drist.

Ni gawsom auaf c'letaf clwy',
  Ofnadwy yno yn wir;
Clefydon gydag oerfel cry'
  A gwympodd lu o'n gwŷr,
A stormydd mawrion i'n pruddhau,
  A ddrylliai'r llongau'n llu.
Ond gwelwyd eto haul ar fryn,
  A gwanwyn yno'n gu.
    Daeth ein llu, eto'n llon,
    I gongcro Rwsiaid creulon rai.

Goresgyn wnaethant, (orchwyl hoff,)
  Fôr Asoff ar ei hyd,
Gan gym'ryd Kertch ac Yenikale
  Mewn gafael yno i gyd.
Dau gant a chwech a deugain roent
  O longau Rwsia i lawr,
Fu'n cario bwyd ac arfau tân,
  I'r rhyfel milain mawr;
    Cymeryd wyth tref a wnaed,
    Heb golli gwaed na lladd eu gwŷr.

O wlad Sardinia 'n gymhorth pur,
  Caed dewrion filwyr da,
Yn erbyn Rwsia 'n dyrfa dŷn,
  Mor hynod hyn trwy'r ha'!
Sabastopol, er cryfed oedd,
  Wrth wel'd ein lluoedd llon,
'R oedd miloedd ynddi nos a dydd
  I'w gwel'd yn brudd eu bron:
    Yn erbyn hon buont hwy
    Yn tân-belenu, a hyny'n hir.

A brwydr Tcherneya'n wir
  A nodir nesa' 'nawr;
Gwŷr Rwsia yn mhen tair awr bob oed,
  Yn lluoedd roed i'r llawr.
'Roedd ganddynt dri o wŷr am un
  I'n herbyn yno'n wir;
Heb gladdu eu meirw darfu'nt ffoi,
  Oedd yno'n toi y tir:

X205 Z 26315

Gwelai'u clir dywysog glân
Mai eithaf egwan oedd ei wŷr.

Cymerwyd cedyrn gaerau o'r bron,
A thwr Mamelon mawr;
Ger llaw Sebastopol bu'n gwŷr
Yn gweithio'n bur bob awr.
Er nad oedd ail Sebastopol,
Trwy yr anferthol fyd,
Wrth guro'n hir chwilfriwio wna
Y gareg g'leta' i gyd:
Daeth y pryd, rhoed o'r bron,
Y ddinas hon tan greulon graith.

Mis Medi yr wythfed dydd y bu
Ei thrwm ofnadwy nod;
Ei chongcro ddarfu ein milwyr pur,
A'r Ffrangcod clir eu clod;
Bu tân-belenu, a hyny o hyd,
Na welwyd yno ei ail;
A'r *cannons* mawrion ar bob tro,
A ddarfu'nt siglo ei sail:
Er colli gwaed, congcwest gaed,
A Rwsiaid roed dan draed yn drist,

Meddianu caerau'r Malakoff,
Oedd newydd hoff i ni,
A chym'ryd pyrth Sabastopol,
A'i rhan ddeheuol hi.
Fe ffoes gwŷr Rwsia, garwa' eu gwg,
O'r golwg gyda gwarth,
Rhag cael eu lladd yn wael eu llun,
Pob un i'r gogleddbarth.
Gwŷr yr arth aent heb rym
O flaen ein milwyr cyflym iawn.

'Rol colli nerth Sebastopol,
Yn hollol byddant hwy
Yn colli hefyd, gwn yn dda,
Holl wlad Crimea mwy.
Fe gafodd Rwsia chwalfa chwith,
Ni chyfyd byth drachefn;
A'i llongau rhyfel gant ac wyth,
Fe'u drylliwyd yn ddidrefn:
Byth drachefn chwaith ni chant
Sebastopol i'w meddiant mwy.

Caed pedair mil ar hyny o dro
O *gannons* yno i gyd,
A haner cant o filoedd llawn,
O'r bwlets braf 'r un pryd;

A phowdwr hefyd lawer iawn,
Pob arfau'n gyfiawn gaed ;
Meddianu eu *stores* ar hyny o bryd,
Yn unfryd yno wnaed.
'R oedd dan draed gyrff mewn gwaed,
Ar ol y lladdfa wnaed trwy'r lle.

Rhown glod i filwyr Lloegr lân,
A Ffraingc a'u gwiwlan wyr ;
Ac i'r Sardiniaid, filwyr da,
Ac Omar Pasha pur.
Ymdrech'sant hwy ar fôr a thir,
Mor gywir gwn i gyd,
Rhag Emprwr Rwsia, garwaf gŵr,
Sydd ben gorthrymwr byd :
Mentro ar hyn wnaethant hwy
Eu heinioes i'w wrth'nebu'n iawn.

Mae miloedd yn galaru'n wir,
Yn glir mewn tref a gwlad,
Am eu perth'nasau aeth i lawr,
Trwy'r rhyfel mawr barhâd.
Doed heddwch yn lle rhyfel trwm,
Heb orthrwm yn y byd ;
Fel hyn yn dêg cyfiawnder dardd,
Fel blodau gardd i gyd :
Aed y byd hyfryd hwyl
Yn eiddo Duw ein anwyl Dad.

YWAIN MEIRION.

*Llanidloes, Argraffwyd gan J. M. Jones.*